

Arweiniad atodol: arolygu medrau mewn darparwyr ôl-16

Hydref 2017

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ▲ ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ▲ ysgolion cynradd
- ▲ ysgolion uwchradd
- ▲ ysgolion pob oed
- ▲ ysgolion arbennig
- ▲ unedau cyfeirio disgyblion
- ▲ ysgolion annibynnol
- ▲ addysg bellach
- ▲ colegau arbenigol annibynnol
- ▲ dysgu oedolion yn y gymuned
- ▲ gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- ▲ addysg a hyfforddiant athrawon
- ▲ Cymraeg i oedolion
- ▲ dysgu yn y gwaith
- ▲ dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- ▲ yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- ▲ yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© **Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad penodol.**

Beth yw'r diben?

Rhoi arweiniad i arolygwyr ar gyfer arfarnu medrau

Ar gyfer pwy y mae wedi'i fwriadu?

Arolygwyr yn y sector ôl-16/AB

Pryd y dylid dechrau defnyddio'r arweiniad?

Medi 2017

Cynnwys**Tudalen**

Arweiniad atodol	1
Cyflwyniad	2
Casglu ac adolygu tystiolaeth arolygu	2
Yn ystod yr arolygiad	3
Safonau	3
Darpariaeth	6
Asesu medrau dysgwyr	6
Gosod targedau	7
Cymwysterau a chynnydd dysgwyr	8
Addysgu medrau	9
Arweinyddiaeth a rheolaeth	10
Atodiad 1: Sbardunau cwestiwn ar gyfer arsylwadau – ffocws ar lythrennedd	11
Atodiad 2: Sbardunau cwestiwn ar gyfer arsylwadau – ffocws ar rifedd	13
Atodiad 3: Sbardunau cwestiwn ar gyfer dysgwyr – ffocws ar lythrennedd digidol	14
Atodiad 4: Cwestiynau i'w haddasu yn unol â thrywyddau ymholi	16

Arweiniad atodol

Y dogfennau allweddol Estyn sy'n rhoi arweiniad ar weithgarwch arolygu yw'r llawlyfrau arweiniad arolygu ar gyfer pob sector. Fodd bynnag, rydym yn llunio arweiniad atodol hefyd i helpu arolygwyr i ystyried agweddau penodol ar addysg a hyfforddiant ymhellach.

Mae'r dogfennau arweiniad atodol yn amlinellu rhai egwyddorion, ystyriaethau ac adnoddau allweddol ar gyfer arolygwyr. Maent yn ymwneud â phob sector y mae Estyn yn ei arolygu, oni bai bod y dogfennau'n datgan eu bod ar gyfer sector penodol. Maent yn ymhelaethu ar agweddau penodol ar addysg/hyfforddiant (e.e. arolygu llythrennedd) neu ffyrdd o gynnal arolygiadau (e.e. defnyddio teithiau dysgu) neu drefniadau arolygu penodol (e.e. arweiniad ar arolygu ysgolion eglwysig).

Nid nod y dogfennau arweiniad atodol yw bod yn gynhwysfawr. Nid yw'n ofynnol i arolygwyr weithio trwyddynt yn drwyadl wrth ymdrin ag unrhyw agwedd benodol ar arolygiad. Fodd bynnag, gallent fod yn ddefnyddiol i arolygwyr wrth iddynt ymateb i gwestiynau penodol sy'n dod i'r amlwg yn ystod arolygiadau neu pan fyddant yn dymuno myfyrio neu ymchwilio ymhellach.

Gallai'r dogfennau arweiniad atodol helpu darparwyr i gael dealltwriaeth o drefniadau arolygu Estyn hefyd. Gallent fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr hefyd o ran arfarnu agweddau penodol ar eu darpariaeth eu hunain.

Mae ein gwaith arolygu wedi'i seilio ar yr egwyddorion canlynol:

- Bydd arolygwyr yn mynd ati i arolygu'n gadarnhaol, i sicrhau mai'r profiad dysgu proffesiynol gorau posibl fydd hwn ar gyfer y staff ym mhob darparwr
- Bydd arolygwyr yn arolygu ar sail dull sy'n cael ei arwain gan y dysgwr
- Bydd arolygwyr bob amser yn canolbwyntio'n gryf ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu
- Bydd arolygwyr yn chwilio am arfer arloesol, graff
- Bydd arolygwyr yn teilwra gweithgareddau'r arolygiad yn unol â'r amgylchiadau ym mhob darparwr, cyhyd â phosibl
- Bydd arolygwyr yn hyblyg ac yn ymateb i ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg, ac yn defnyddio ystod gynyddol yr adnoddau a dulliau arolygu sydd ar gael
- Bydd arolygwyr yn ystyried popeth yn y fframwaith arolygu, ond byddant yn adrodd ar y cryfderau a'r gwendidau allweddol yn unig ym mhob darparwr

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys arweiniad ar arolygu llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol mewn darparwyr ôl-16. Mae wedi'i chynllunio i ategu'r fframwaith arolygu cyffredin ac egluro sefyllfa medrau mewn arolygiadau ôl-16.

Mae llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol yn rhan bwysig o bob arolygiad ac mae gan bob arolygydd gyfrifoldeb i gofnodi tystiolaeth a gwneud arfarniadau o ansawdd y safonau, y ddarpariaeth a rheoli medrau. Bydd tystiolaeth gan bob arolygydd yn cyfrannu at farnau ar gyfer llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol.

Mewn addysg bellach:

Yng ngham un arolygu: y ffocws trosfwaol ar gyfer medrau yw'r graddau y mae pob dysgwr unigol yn gwella ei fedrau o'i fan cychwyn ei hun.

Yng ngham dau arolygu: mae'r ffocws trosfwaol ar ddeilliannau dysgwyr ar gyfer medrau a pha mor dda y mae'r darparwr yn cynorthwyo dysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt mewn medrau i gwblhau eu prif raglen astudio yn llwyddiannus.

Mewn dysgu yn y gwaith:

Y ffocws trosfwaol ar gyfer medrau yw'r graddau y mae pob dysgwr unigol yn gwella'i fedrau o'i fan cychwyn ei hun a pha mor dda y mae'r darparwr yn cynorthwyo dysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt mewn medrau i gwblhau eu prif raglen astudio neu fframwaith yn llwyddiannus.

Casglu ac adolygu tystiolaeth arolygu

Gallai'r Arolygydd Cofnodol fod wedi nodi cwestiynau sy'n dod i'r amlwg am lythrennedd, rhifedd neu lythrennedd digidol o adolygu'r wybodaeth cyn yr arolygiad. Bydd y tîm yn sicrhau bod ganddynt ddigon o amser i adolygu'r dystiolaeth allweddol sydd ei hangen arnynt i lunio eu barnau. Dyma'r prif ffurfiau tystiolaeth:

- samplau o waith dysgwyr
- trafodaethau gyda dysgwyr, staff, arweinwyr, rheolwyr, llywodraethwyr a phobl eraill
- arsylwi'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu, gan gynnwys tystiolaeth a gasglwyd trwy deithiau dysgu
- ymatebion i'r arolwg gan ddysgwyr, ac mewn dysgu yn y gwaith, gan hyfforddwyr ac aseswyr, staff cymorth a chyflogwyr
- tystiolaeth ddogfennol, gan gynnwys gwybodaeth am berfformiad a chynnydd dysgwyr

Bydd y tîm yn defnyddio arsylwadau uniongyrchol o waith dysgwyr ble bynnag y bo modd i gasglu tystiolaeth i gefnogi eu barnau.

Bydd arolygwyr yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau i gasglu tystiolaeth ar gyfer eu harfarniad o gynnydd dysgwyr ac ansawdd y ddarpariaeth. Gallai hyn gynnwys:

- teithiau dysgu, lle mae arolygwyr yn symud yn gymharol gyflym trwy nifer o ddsbarthiadau gan edrych ar agwedd benodol ar y ddarpariaeth
- sgysiau â dysgwyr am eu gwaith
- trafodaethau gydag athrawon neu hyfforddwyr unigol am ddysgu dysgwyr yn eu dosbarthiadau a sut maent yn cynllunio gwaith i fodloni anghenion dysgwyr
- arsylwadau hwy
- craffu ar y ffordd y mae'r darparwr yn olrhain cyrhaeddiad dysgwyr mewn medrau

Mae llais dysgwyr yn ffynhonnell dystiolaeth allweddol ar gyfer arolygwyr. Bydd trafodaethau gyda dysgwyr yn rhoi cyfle i archwilio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u gwaith. Bydd hefyd yn helpu arolygwyr i gael amcan o ba mor dda y mae'r darparwr yn cynorthwyo dysgwyr ac yn cyfrannu at eu cynnydd a'u lles.

Dylai darparwyr drefnu bod gwybodaeth ar gael i'r tîm arolygu am y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr, yn enwedig canlyniadau unrhyw asesiadau cychwynnol ac asesiadau eraill. Bydd hyn yn helpu arolygwyr i farnu cynnydd dysgwyr, llunio barn am y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni o gymharu â'u manau cychwyn, a'r ffordd y mae athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr yn defnyddio'r wybodaeth o asesu i lywio eu cynllunio a'r ffordd y cânt eu cyflwyno.

Yn ystod yr arolygiad

Safonau

Wrth gasglu tystiolaeth ar gyfer safonau, bydd arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth glir fod:

- Pob un o'r dysgwyr wedi cwblhau asesiad priodol o'u medrau ar ddechrau eu rhaglen ddysgu
- Dysgwyr wedi nodi targedau byr a chraff o'u hasesiadau medrau
- Bod dysgwyr yn gwybod a deall targedau, a bod y targedau'n berthnasol i lefel gallu'r dysgwr a'i brif raglen astudio
- Dysgwyr wedi cofnodi eu targedau mewn fformat sy'n hygyrch iddynt
- Dysgwyr yn adolygu eu targedau yn drylwyr ac ar adegau priodol

Safonau llythrennedd

Dylai arolygwyr adrodd yn glir ar ba mor dda y mae dysgwyr yn siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu o fewn eu maes neu'u rhaglen ddysgu, ac mewn cyd-destunau ehangach neu sesiynau ar wahân, yn ogystal.

Mae angen i arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr:

- yn siarad yn gywir ac yn rhugl
- yn gwrando ac yn ymateb i bobl eraill (gan wneud cyfraniadau sylweddol at drafodaethau, cyfathrebu'n glir, yn hyderus ac yn effeithiol mewn ffordd sy'n addas ar gyfer y pwnc, y gynulleidfa a'r diben)
- yn defnyddio medrau rhesymu llafar, yn ffurfio safbwyntiau annibynnol ac yn dangos medrau gwrando effeithiol trwy grynhoi pwyntiau allweddol, gan herio'r hyn sy'n cael ei glywed ar sail rheswm, tystiolaeth neu ddadl
- yn holi cwestiynau ac yn ystyried cwestiynau drostyn nhw eu hunain
- yn meddu ar ddealltwriaeth fanwl ac eang (deall cysyniadau a syniadau allweddol, gwneud cysylltiadau rhwng gwahanol agweddau ar y gwaith, deall y darlun mawr)
- yn cymhwyso dealltwriaeth i gyd-destunau ehangach, bywyd bob dydd a sefyllfaoedd newydd
- yn dewis, defnyddio a dod o hyd i wybodaeth (dewis, crynhoi, nodi pwyntiau allweddol, cyfosod gwybodaeth) o ystod eang o destunau ysgrifenedig a digidol
- yn ymateb i syniadau a gwybodaeth gan ddefnyddio medrau darllen cymhleth, ar lafar ac yn ysgrifenedig (nodi patrymau, gwneud rhagfynegiadau, llunio casgliadau, trafod, ystyried ystod o ddehongliadau, rhesymu'r ystyr a fwriedir ac arfarnu ei ddiben)
- yn ymchwilio i atebion o ystod o ffynonellau, yn ystyried tystiolaeth a'i dibynadwyedd, pwysu a mesur manteision ac anfanteision
- yn ymdopi â gofynion gweithgareddau/tasgau darllen ac ysgrifennu
- yn trefnu a chyflwyno syniadau a gwybodaeth yn glir/yn effeithiol yn eu hysgrifennu (cynllunio prawfddarllen, golygu/diwygio gwaith)
- yn ysgrifennu'n gywir (sillafu, atalnodi, gramadeg, geirfa, gweddu arddull i ddiben a chynulleidfa)
- yn ysgrifennu'n estynedig gan ddefnyddio ystod eang o fathau o destun

Safonau rhifedd

Dylai arolygwyr adrodd yn glir ar ba mor dda y mae dysgwyr yn defnyddio eu medrau rhifedd o fewn eu maes neu'u rhaglen ddysgu, ac mewn cyd-destunau, neu sesiynau ar wahân, yn ogystal.

Mae angen i arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr:

- yn esbonio eu syniadau i ddangos eu dealltwriaeth o brosesau a chysyniadau rhif
- yn adnabod a defnyddio strategaeth effeithlon ar gyfer cyfrifiadau, gan gynnwys dulliau yn y pen, dulliau ysgrifenedig a defnyddio cyfrifiannell
- yn dangos eu bod yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o ffeithiau rhif (er enghraifft gwerth lle, cywerthedd degolion a ffracsiynau, rhoi degolion yn eu trefn)
- yn dangos dealltwriaeth gadarn o ddulliau cyfrif (er enghraifft tablau, bondiau, dulliau yn y pen a dulliau ysgrifenedig a defnyddio cyfrifiannell yn effeithlon) a chyfrifo'n gywir
- yn dangos ymwybyddiaeth o siâp, graddfa, maint a lleoliad
- yn arfarnu data i wneud penderfyniadau gwybodus, er enghraifft sut gall dysgwyr

gasglu, trefnu a dadansoddi data yn effeithiol

- yn cymhwyso eu medrau'n gywir wrth weithio'n annibynnol a gyda dysgwyr eraill
- yn arfarnu eu hatebion
- yn ymdopi â gofynion mathemategol a wneir yn y pwnc
- yn defnyddio medrau a chysyniadau a ddysgwyd o'r blaen

Safonau llythrennedd digidol

Llythrennedd digidol yw cymhwyso offer a gwybodaeth ddigidol, a defnydd perthnasol ohonynt. Bydd dysgwr sy'n llythrennog yn ddigidol yn deall pryd mae'n briodol defnyddio offer digidol yn eu dysgu a'u bywyd bob dydd. Dylai arolygwyr adrodd yn glir ar ba mor dda y mae dysgwyr yn defnyddio eu medrau llythrennedd digidol yn eu maes neu'u rhaglen ddysgu, ac mewn cyd-destunau ehangach, neu sesiynau ar wahân, yn ogystal.

Mae angen i arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn ymateb i agweddau ar fedrau llythrennedd digidol trwy ofyn cwestiynau ar deithiau dysgu ac arsylwadau, fel:

Cyfrifoldeb digidol

- Sut ydych chi'n aros yn ddiogel ar-lein?
- Beth yw canlyniadau posibl gweithgarwch ar-lein amhriodol neu anghyfreithlon?

Cynhyrchiant digidol

- Sut ydych chi'n trefnu eich gwaith? A ydych chi'n defnyddio strwythurau ffolder?
- Sut ydych chi'n cadw eich gwaith yn ddiogel?
- A ydych chi'n creu copi wrth gefn o'ch gwaith? Sut?
- Beth fydddech chi'n ei wneud pe bai eich dyfais ddigidol (bwrdd gwaith, gliniadur, ffôn clyfar, ac ati) yn rhewi neu'n arafu?

Llythrennedd gwybodaeth ddigidol

- Sut ydych chi'n penderfynu ar y geiriau neu'r ymadroddion wrth ddefnyddio chwilotwr?
- Sut ydych chi'n gwybod bod y canlyniadau yn gyfredol, yn berthnasol ac yn gywir?

Cydweithio digidol

- Pryd fydddech chi'n defnyddio offer digidol cydweithredol?
- Beth yw risgiau defnyddio offer digidol cydweithredol?

Creadigrwydd digidol

- Pan fyddwch yn creu ateb amlgyfrwng, sut ydych chi'n penderfynu pa offer a thechnegau creadigol digidol i'w defnyddio?

Dysgu digidol

- Sut ydych chi'n penderfynu pa offer digidol i'w defnyddio, a pham?

Darpariaeth

Wrth gasglu tystiolaeth i ddarparu ar gyfer medrau, bydd arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth glir:

- Fod gan y darparwr broses weithredol glir i ddatblygu medrau dysgwyr o'u manau cychwyn unigol
- Bod athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr yn arwain dysgwyr yn effeithiol i nodi eu targedau
- Bod athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr yn darparu cyfleoedd ac adnoddau priodol i ddysgwyr ddatblygu eu medrau
- Bod digon o gyfleoedd i ddysgwyr ymarfer eu medrau yn eu gwaith cwrs, eu gwaith ymarferol a'u haseiniadau
- Bod digon o brosesau ar gyfer mesur a chofnodi cynnydd dysgwyr o ran datblygu eu medrau

Asesu medrau dysgwyr

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gynnal asesiad cychwynnol o fedrau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol dysgwyr ar ddechrau eu cwrs. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i'r holl ddysgwyr a ariennir gan Lywodraeth Cymru, gyda gofynion penodol ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n astudio am fwy na 40 o oriau dysgu tywysedig y flwyddyn o fewn 4 wythnos i ddysgwyr yn dechrau ar y cwrs o'i ddewis, ni waeth p'un a ydynt wedi'u nodi yn amodau yn y fframwaith ai peidio. Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i ddarparwyr ddefnyddio offeryn asesu Prawf Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST) gan fod hyn yn galluogi'r llywodraeth i goladu a chymharu gwybodaeth ledled Cymru. Nod WEST yw helpu dysgwyr i nodi eu hanghenion ac wedyn eu cynorthwyo i fynd i'r afael â nhw.

Rhaid i bob dysgwr ôl-16 sy'n cael llai na 40 awr o ddysgu tywysedig darpariaeth Llywodraeth Cymru gwblhau Sgriniwr WEST yn ogystal â dadansoddiad anghenion yn ogystal â dadansoddiad anghenion er mwyn sicrhau a dangos tystiolaeth eu bod yn cael y lefel gywir o hyfforddiant ar gyfer eu hanghenion unigol. Dylid cwblhau'r sgriniwr cyn i ddysgwr ddechrau ei ddarpariaeth i sicrhau bod yr hyfforddiant a ddarperir yn cael ei dargedu ar y lefel gywir.

Fodd bynnag, yn ymarferol, gallai darparwyr gynnal ystod eang o asesiadau yn ogystal â WEST pan fydd dysgwyr yn dechrau eu cwrs astudio. Mae'r rhain yn helpu darparwyr i nodi'r bylchau yng ngwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr.

Gallent gynnwys unrhyw rai o blith ystod o asesiadau, gan gynnwys:

- asesiadau medrau mewnol
- asesiadau ar-lein
- asesu ar gyfer anawsterau neu anabledau dysgu penodol
- asesiadau dyslecsia ar wahân

Gallai darparwyr osod tasg neu aseiniad ysgrifenedig ar gyfer dysgwyr hefyd i asesu eu medrau mewn ysgrifennu a'u defnydd technegol o sillafu, gramadeg ac atalnodi yng nghyd-destun eu rhaglen waith a dysgu.

Nid oes gan Estyn restr y mae'n ei ffafrio o asesiadau y dylai darparwyr eu cynnal.

Bydd arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth fod y darparwr wedi ystyried ystod lawn y deilliannau o'r asesiadau y maent wedi'u cynnal. Byddant yn disgwyl bod darparwyr wedi tywys y dysgwyr at osod y targedau mwyaf perthnasol o'r holl wybodaeth a gasglwyd.

Yn ogystal â'r asesiadau ar ddechrau'r rhaglen ddysgu, mae darparwyr yn adolygu cyrhaeddiad blaenorol dysgwyr. Maent yn ystyried ystod a lefel cymwysterau blaenorol y mae'r dysgwr wedi eu cyflawni ac yn cymharu'r rhain â lefel medrau dysgwyr, yn unol â'r hyn a nodwyd gan yr asesiadau.

Nid oes gan Estyn broses y mae'n ei ffafrio ar gyfer casglu ac asesu dysgu a chyrhaeddiad blaenorol dysgwyr. Bydd arolygwyr yn disgwyl i ddarparwyr ddefnyddio'r wybodaeth hon i wneud yn siwr nad yw dysgwyr yn ailadrodd cymhwyster ar lefel sydd gyfwerth â, neu islaw'r, lefel sydd ganddynt ar hyn o bryd.

Gosod targedau

Dylai darparwyr ddefnyddio'r deilliannau o'r ystod lawn o'u hasesiadau o fedrau dysgwyr i gynorthwyo dysgwyr unigol i ddewis nifer briodol o dargedau i wella eu medrau. Dylai targedau:

- fod yn berthnasol i'r dysgwr, a'i gwrs astudio
- bod yn fyr a chraff i alluogi dysgwyr i ddatblygu eu medrau'n raddol mewn darnau bach
- bod yn ddigon heriol i ysgogi gwelliant
- cael eu cefnogi gan gyfeiriadau i sut gallai'r dysgwr ddatblygu'r medrau hyn
- cael mesur clir i nodi bod y targed wedi'i gyflawni
- cael lle clir i adolygu'r targedau yn rheolaidd ac ar adegau priodol

Nid yw Estyn yn disgwyl i ddarparwyr osod targedau i ddysgwyr o unrhyw asesiad penodol na defnyddio'r targedau a gynhyrchwyd gan offeryn asesu WEST, oni bai bod y rhain yn berthnasol i'r dysgwr a'i gwrs astudio. Dylai targedau fod yn berthnasol i helpu'r dysgwr i wella'i fedrau yng nghyd-destun ei gwrs a'i gyflogaeth neu addysg barhaus yn y dyfodol. Ni ddylid gosod targedau i gyflawni gofyniad ticio blwch ar offer asesu.

Mae darparwyr yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gofnodi targedau dysgwyr. Mae bron pob un o'r rhain wedi eu cynnwys mewn cynllun dysgu unigol (CDU). Gallai'r rhain fod yn CDUau ar bapur neu'n CDUau ar-lein. Dylai dysgwyr allu mynd at eu CDUau a'u targedau medrau yn hawdd gan y bydd angen iddynt ystyried y targedau hyn fel rhan o'u gwaith cwrs bob dydd.

Mae Estyn yn disgwyl i ddysgwyr wybod eu targedau a sut i fynd atynt. Fodd bynnag, nid oes gan Estyn arddull CDU y mae'n ei ffafrio ac nid yw'n disgwyl i ddysgwyr ddefnyddio CDU a gynhyrchwyd gan unrhyw offeryn asesu, oni bai bod hyn yn berthnasol i'r dysgwr a'i gwrs astudio.

Cymwysterau a chynnydd dysgwyr

Fel rhan o'u rhaglen astudio, gallai dysgwyr fod yn gweithio tuag at gymhwyster Saesneg, mathemateg neu TGCh. Gallent fod yn gweithio tuag at unedau credyd neu dystysgrifau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol, neu'n gweithio tuag at heriau medrau Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Gellir datblygu, ymarfer ac atgyfnerthu targedau medrau dysgwyr trwy'r cymwysterau a'r tystysgrifau hyn yn yr un ffordd ag y gallent fod trwy eu cymwysterau galwedigaethol ac academaidd. Fodd bynnag, dylai'r cymwysterau a'r tystysgrifau hyn wella targedau medrau unigol y dysgwyr, ac nid eu disodli.

Asesiadau generig yn erbyn meini prawf a bennwyd ymlaen llaw yw cymwysterau, tystysgrifau dysgu ac unedau credyd. O'r herwydd, efallai nad ydynt yn adlewyrchu'n llawn y cynnydd a wna dysgwyr unigol yn erbyn y targedau a ddewiswyd ganddyn nhw eu hunain, a'u targedau unigol. Bydd deilliannau'r darparwr ar gyfer cymwysterau, unedau credyd a thystysgrifau yn cael eu cynnwys mewn barnau yn ymwneud â data yn ystod yr arolygiad.

Caiff cynnydd mewn medrau ei bennu gan y ffordd y mae dysgwyr yn mireinio eu medrau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol, eu dealltwriaeth gynyddol o gysyniadau a'r ffordd y maent yn cymhwyso medrau i dasgau sy'n symud o syml i gymhleth. Dylai dysgwyr ddatblygu o fod angen cymorth ac arweiniad manwl i gymhwyso eu medrau yn annibynnol o fewn eu prif raglenni astudio. Dylai dysgwyr wneud cynnydd yn datblygu'r medrau fydd eu hangen arnynt i lwyddo yn y llwybr dysgu a ddewisir ganddynt, a'u swydd yn y dyfodol.

Yn ymarferol, bydd cynnydd yn berthnasol i'r dysgwr unigol. Gallai fod mewn camau bach i ddatblygu medrau neu welliant mwy cyflym. Bydd cynnydd dysgwyr yn dibynnu ar eu gwybodaeth a'u profiad blaenorol. Gallent fod yn adolygu ac atgyfnerthu medrau a ddysgwyd yn flaenorol sydd wedi llithro'n ôl neu aros yr un fath, neu gallent fod yn dysgu cysyniadau newydd. Gallent fod yn datblygu eu medrau o lefelau mynediad neu cyn-mynediad neu gallent fod yn datblygu eu medrau ar lefelau 3 a 4. Dylid cofio felly y bydd cynnydd yn wahanol ar gyfer pob dysgwr unigol. Y ffactor pwysig yw bod gan y dysgwr ddealltwriaeth glir o'r medrau y mae angen iddynt eu datblygu, bod ganddynt dargedau i fodloni'r anghenion hyn, bod y targedau hyn yn ddigon heriol a'u bod yn cael eu cynllunio yng nghyd-destun prif raglen ddysgu'r dysgwyr.

Cymwysterau Saesneg a mathemateg TGAU mewn colegau addysg bellach

Mae'r sylfaen yr ydym yn arolygu medrau arni mewn colegau yn cyd-fynd â blaenoriaethau Gweinidogion Llywodraeth Cymru. Mae Estyn yn disgwyl i golegau gynorthwyo dysgwyr 16-19 oed i ddatblygu lefelau digonol o fedrau llythrennedd a rhifedd i'w galluogi i wneud cynnydd yn y maes gwaith neu'r maes astudio o'u dewis.

Argymhellodd yr Adolygiad o Gymwysterau y dylai'r holl ddysgwyr nad ydynt wedi cyflawni gradd A*-C mewn Saesneg/Cymraeg mamiaith TGAU yn 16 oed weithio tuag at ennill y cymwysterau hyn fel rhan o unrhyw raglen astudio amser llawn yn 16-19 oed. Bydd Estyn yn ystyried pa mor dda y mae'r coleg yn bodloni'r argymhelliad hwn ar gyfer dysgwyr ar raglenni astudio amser llawn (>450 o oriau cyswllt tywysedig mewn blwyddyn).

Bydd Estyn yn ystyried gwaith y coleg yng ngoleuni'r argymhellion ym mlaenoriaethau Gweinidogion:

- Dylai pob dysgwr sy'n dechrau rhaglen astudio sy'n para blwyddyn gyda gradd D mewn Saesneg/Cymraeg TGAU neu Fathemateg-Rhifedd TGAU weithio tuag at radd C yn y cymhwyster TGAU hwnnw fel rhan o'u rhaglen astudio.
- Dylai pob dysgwr sy'n dechrau rhaglen astudio dwy flynedd gyda gradd D neu E mewn Saesneg/Cymraeg neu Fathemateg TGAU Mathemateg-Rhifedd weithio tuag at radd C yn y cymhwyster TGAU hwnnw fel rhan o'u rhaglen astudio.
- Dylai dysgwyr sydd â graddau'n is na'r rheiny a nodwyd weithio tuag at gael gradd C fel rhan o'u rhaglen astudio os oes rhesymau penodol i gredu bod modd cyflawni hyn (e.e. o ganlyniad i amgylchiadau penodol neu ganlyniadau profion diagnostig). Mae hyn yn debygol o fod yn berthnasol i nifer fach o ddysgwyr yn unig.
- Dylid cynorthwyo dysgwyr eraill i wneud cynnydd yn eu medrau llythrennedd a rhifedd trwy eu rhaglen astudio, a dylent weithio tuag at gymwysterau addas – Medrau Hanfodol Cyfathrebu a Chymhwyso Rhif gan amlaf.

Addysgu medrau

Mae'r ffordd y mae darparwyr yn addysgu medrau yn gallu amrywio rhwng darparwyr a chyd-destunau. Gallai'r rhain gynnwys unrhyw beth o ystod o'r canlynol:

- dosbarthiadau medrau ar wahân
- medrau sy'n cael eu haddysgu fel rhan benodol o brif raglen ddysgu'r dysgwyr
- medrau sy'n cael eu haddysgu fel elfen sy'n digwydd yn naturiol o'r rhaglen ddysgu
- medrau sy'n cael eu datblygu trwy ymweliadau cymorth ag asesu o un i un
- dosbarthiadau TGAU ar wahân
- dosbarthiadau Medrau Hanfodol ar wahân

Gallai athrawon gynllunio datblygiad medrau mewn amrywiaeth o ffyrdd. Gallent ddadansoddi'r medrau y mae angen i ddysgwyr eu datblygu, nodi'r cysyniadau mwyaf cyffredin ac addysgu'r rhain fel sesiynau dosbarth cyfan. Gallent fod yn dilyn maes llafur penodol ar gyfer cymwysterau fel Mathemateg TGAU - rhifedd. Gallent fod yn cynorthwyo dysgwyr fel unigolion mewn sesiynau hunanddysgu.

Gallai darparwyr wella datblygiad medrau dysgwyr trwy ddefnyddio adnoddau ar-lein a rhaglenni dysgu. Gellir annog dysgwyr i ddefnyddio'r rhain mewn cyfnod astudio neu gallai'r darparwr osod amser penodol yn amserlen y dysgwyr ar gyfer hunanastudio.

Gall medrau gael eu haddysgu gan athrawon medrau penodol, gan athrawon galwedigaethol, gan aseswyr dysgu yn y gwaith neu gan gyfuniad o'r rhain. Gall dysgu medrau gael ei gefnogi gan gynorthwywyr addysgu, cynorthwywyr ystafell ddosbarth, staff cymorth dysgu neu anogwyr dysgu.

Gallai fod gan ddarparwyr athrawon TGAU, athrawon llythrennedd a rhifedd ac athrawon cymorth dysgu. Gallai fod gan lawer o ddarparwyr athrawon penodol ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ac ar gyfer Medrau Hanfodol hefyd.

Nid oes gan Estyn fodel cyflwyno y mae'n ei ffafrio na ffafriaeth am unrhyw rolau penodol ar gyfer addysgu a chefnogi medrau.

Bydd arolygwyr yn edrych ar ba mor dda y mae pob un o'r athrawon neu'r hyfforddwyr:

- yn fodelau rôl da eu hunain
- yn mynd i'r afael â datblygiad medrau i fodloni anghenion dysgwyr unigol
- yn darparu cyfleoedd wedi'u cynllunio ar gyfer datblygu medrau
- yn gwneud defnydd effeithiol o gyfleoedd datblygu medrau fel y maent yn digwydd yn naturiol
- yn hyrwyddo medrau yng nghyd-destun cynnwys y rhaglen ddysgu
- yn gwneud defnydd effeithiol o holi
- yn hyrwyddo trafodaeth a chyfathrebu effeithiol
- yn nodi camgymeriadau mewn medrau yn hyderus ac yn cynorthwyo'r dysgwr i wella

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Wrth gasglu tystiolaeth ar gyfer arwain a rheoli medrau, bydd arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth:

- fod gan y darparwr gynllun strategol clir ar gyfer medrau ar draws y ddarpariaeth
- fod proses gydlynus ar gyfer rheoli pob agwedd ar fedrau sy'n caniatáu atebolrwydd a chyfrifoldeb clir ar gyfer y prosesau
- fod ansawdd cyflwyno medrau a deilliannau medrau yn cael eu monitro a'u harfarnu'n barhaus
- bod strategaeth datblygu staff ar gyfer gwella'r ffordd y caiff medrau eu cyflwyno ar draws y ddarpariaeth
- bod adnoddau digonol a pherthnasol i alluogi dysgwyr i ddatblygu eu medrau yng nghyd-destun eu rhaglen ddysgu ac i fodloni eu hanghenion datblygu

Gallai darparwyr drefnu arwain a rheoli medrau mewn amrywiaeth o ffyrdd. Yn ymarferol, ceir amrywiaeth sylweddol o rolau o fewn arwain a rheoli medrau mewn darparwyr ôl-16. Yn aml, mae'r rhain yn dibynnu ar faint y darparwr a'r cwricwlwm y mae'n ei gynnig. Wrth arolygu medrau, mae'n bwysig archwilio rôl wirioneddol yr arweinwyr a'r rheolwyr i gael dealltwriaeth o'r cyfrifoldebau a'r atebolrwydd am fedrau ar lefelau gwahanol y sefydliad.

Nid oes gan Estyn fodel y mae'n ei ffafrio ar gyfer arwain a rheoli medrau.

Bydd arolygwyr yn ystyried effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr ar bob lefel i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol dysgwyr.

Atodiad 1

Sbardunau cwestiwn ar gyfer arsylwi gwersi – ffocws ar lythrennedd

Pa mor dda y mae dysgwyr...?

- yn gwranddo ar bobl eraill ac yn ymateb iddynt (cyfrannu'n sylweddol at drafodaethau, cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol mewn ffordd sy'n gweddu i'r pwnc, y gynulleidfa a'r diben)?
- yn gofyn cwestiynau ac yn meddwl am gwestiynau drostynt eu hunain?
- yn meddu ar ddealltwriaeth fanwl ac eang (deall cysyniadau a syniadau allweddol, gwneud cysylltiadau rhwng gwahanol agweddau ar y gwaith, deall y darlun mawr)?
- yn cymhwyso dealltwriaeth i gyd-destunau ehangach, bywyd bob dydd, sefyllfaoedd newydd?
- yn dewis, defnyddio a dod o hyd i wybodaeth (dewis, crynhoi, nodi pwyntiau allweddol, cyfosod gwybodaeth)?
- yn ymateb i syniadau a gwybodaeth gan ddefnyddio medrau darllen cymhleth, ar lafar ac yn ysgrifenedig (nodi patrymau, rhesymu neu ragfynegi, llunio casgliadau, ystyried ystod o ddehongliadau)?
- yn ymchwilio i atebion o ystod o ffynonellau, yn ystyried tystiolaeth a'i dibynadwyedd, yn pwyso a mesur y manteision a'r anfanteision?
- yn ymdopi â gofynion tasgau/gweithgareddau darllen ac ysgrifennu?
- yn trefnu a chyflwyno syniadau a gwybodaeth yn glir/effeithiol yn eu hysgrifennu (cynllunio, prawfddarllen, golygu/adolygu gwaith)?
- yn ysgrifennu'n gywir (sillafu, atalnodi, gramadeg, geirfa, gweddu arddull i ddiben a chynulleidfa)?
- yn dangos ystod o ysgrifennu estynedig da, gwaith creadigol, gwahanol fathau o destun ffeithiol a datrys problemau?

Pa mor dda y mae'r addysgu...?

- yn dangos defnydd da o iaith i helpu datblygu medrau darllen ac ysgrifennu dysgwyr?
- yn defnyddio chwarae rôl (lle bo'n berthnasol), drama (lle bo'n berthnasol) a gwaith grŵp ar y cyd cyn ysgrifennu i ymestyn meddwl dysgwyr?
- yn darparu cyfleoedd ar gyfer trafod, a'u herio i ddatblygu eu hatebion llafar?
- yn defnyddio cwestiynau treiddgar i wella dealltwriaeth dysgwyr?
- yn helpu dysgwyr i ymhelaethu ar eu hatebion a gwneud cysylltiadau dysgu?
- yn datblygu medrau darllen lefel uwch dysgwyr: (yn helpu dysgwyr i ddefnyddio eu dealltwriaeth a'u medrau adalw gwybodaeth i gael a chyfosod gwybodaeth o ystod o destunau, siartiau, tablau, graffiau, ac ati: brasddarllen, llithrddarllen, rhesymu, dod i gasgliad, rhagfynegi)?
- yn addysgu medrau darllen ac ysgrifennu yn uniongyrchol (lle bo'n berthnasol): (er enghraifft datblygu medrau cynllunio, drafftio, prawfddarllen a golygu dysgwyr wrth ysgrifennu; cymorth â sillafu terminoleg sy'n benodol i bwnc; rhoi arweiniad penodol ar sut i ddatblygu a chymhwyso medrau llythrennedd deul)?

- yn darparu cyfleoedd ystyrlon i ddysgwyr ddatblygu a defnyddio medrau darllen lefel uwch fel rhesymu, dod i gasgliad a chyfosod?
- yn helpu dysgwyr i drefnu eu hysgrifennu mewn ffurf briodol, gan sicrhau bod y cynnwys yn fanwl o fewn paragraffau neu adrannau, a rhyngddynt, datblygu a chynnal syniadau yn gydlynus?
- yn herio dysgwyr i ysgrifennu'n effeithiol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion mewn gwahanol ffurfiau?

Atodiad 2

Sbardunau cwestiwn ar gyfer arsylwadau gwersi – ffocws ar rifedd

Pa mor dda y mae dysgwyr:

- yn esbonio eu syniadau i ddangos eu dealltwriaeth o brosesau a chysyniadau rhif?
- yn nodi a defnyddio strategaeth effeithlon ar gyfer cyfrifiadau, gan gynnwys dulliau cyfrif yn y pen, dulliau ysgrifenedig a defnyddio cyfrifiannell?
- yn dangos bod ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o ffeithiau rhif (er enghraifft gwerth lle, cywerthedd degolion a ffracsiynau, rhoi degolion yn eu trefn)?
- yn dangos dealltwriaeth gadarn o ddulliau cyfrif (er enghraifft tablau, bondiau, dulliau yn y pen a dulliau ysgrifenedig a defnyddio cyfrifiannell yn effeithlon) a chyfrifo'n gywir?
- yn dangos ymwybyddiaeth o siâp, graddfa, maint a lleoliad?
- yn arfarnu data i wneud penderfyniadau gwybodus? A yw dysgwyr yn gallu casglu, trefnu a dadansoddi data yn effeithiol?
- yn cymhwyso eu medrau'n gywir wrth weithio'n annibynnol a gyda disgyblion eraill?
- yn arfarnu eu hatebion?
- yn ymdopi â gofynion mathemategol a wneir yn y pwnc?
- yn defnyddio medrau a chysyniadau a ddysgwyd o'r blaen?

Pa mor dda y mae'r addysgu...?

- yn dangos defnydd da o iaith i helpu datblygiad medrau rhifedd dysgwyr?
- yn hyrwyddo diddordeb a brwdfrydedd dros rifedd?
- yn defnyddio tasgau heriol ac ymarferol i ddatblygu medrau rhifedd dysgwyr?
- yn cynnig cyfleoedd ar gyfer datrys problemau mewn tasgau ymarferol bob dydd sy'n berthnasol i brif gwrs astudio neu ddiddordebau'r dysgwyr?
- yn hyrwyddo'r cysylltiadau rhwng cyfrifiadau rhifedd a'r perthnasedd i dasgau bob dydd?
- yn darparu cyfleoedd ar gyfer cymhwyso medrau rhifedd mewn ystod eang o gyd-destunau perthnasol?
- yn nodi cyfleoedd ar gyfer trosglwyddo medrau rhifedd i gyd-destunau gwahanol ac anghyfarwydd?
- yn gwneud cysylltiadau rhwng medrau rhifedd, e.e. cyfrifo rhif mewn mesur, siâp a gofod?
- yn defnyddio ystod o strategaethau i wella cywirdeb?
- yn defnyddio rhifedd i wella medrau rhesymu dysgwyr?
- yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr nodi patrymau a nodweddion tebyg mewn cyfrifiadau?
- yn defnyddio cwestiynau treiddgar i wella dealltwriaeth?
- yn defnyddio technoleg i hyrwyddo a gwella dysgu rhifedd?

Atodiad 3

Sbardunau cwestiwn ar gyfer dysgwyr – ffocws ar llythrennedd digidol

Sylwer: Mae'r cymhwyster Medrau Llythrennedd Digidol Hanfodol yn cynnwys chwe elfen, sef:

- Cyfrifoldeb Digidol – gwybod sut i aros yn ddiogel a gweithredu'n briodol ar-lein
- Cynhyrchiant Digidol - gwybod pa dechnolegau, offer a thechnegau i'w defnyddio a sut i drefnu, rhannu a diogelu gwybodaeth ddigidol
- Llythrennedd Gwybodaeth Ddigidol – gallu dod o hyd i wybodaeth ddigidol, ei harfarnu'n feirniadol a'i defnyddio'n ddiogel
- Cydweithio Digidol – rhannu gwybodaeth a chydweithio â phobl eraill i gwblhau tasgau a datrys problemau
- Creadigrwydd Digidol – gallu defnyddio cyfryngau digidol i gwblhau tasgau, cynhyrchu cynnwys a datblygu cyfleoedd
- Dysgu Digidol – deall sut gall technoleg ymestyn cyfleoedd dysgu

Gallai arolygwyr ofyn cwestiynau ar deithiau dysgu ac arsylwadau i ddysgwyr i asesu eu dealltwriaeth a'u defnydd o fedrau, fel:

Cyfrifoldeb digidol

- Sut ydych chi'n aros yn ddiogel ar-lein?
- Beth yw canlyniadau posibl gweithgarwch ar-lein amhriodol neu anghyfreithlon?

Cynhyrchiant digidol

- Sut ydych chi'n trefnu eich gwaith? A ydych chi'n defnyddio strwythurau ffolder? Sut ydych chi'n cadw'ch gwaith yn ddiogel?
- A ydych chi'n creu copi wrth gefn o'ch gwaith? Sut?
- Beth fydddech chi'n ei wneud pe bai eich dyfais ddigidol (bwrdd gwaith, gliniadur, ffôn clyfar, ac ati) yn rhewi neu'n arafu?

Llythrennedd gwybodaeth ddigidol

- Sut ydych chi'n penderfynu ar y geiriau neu'r ymadroddion i'w defnyddio wrth ddefnyddio chwilotwr?
- Sut ydych chi'n gwybod bod y canlyniadau yn gyfredol, yn berthnasol ac yn gywir?

Cydweithio digidol

- Pryd fydddech chi'n defnyddio offer digidol cydweithredol?
- Beth yw risgiau defnyddio offer digidol cydweithredol?

Creadigrwydd digidol

- Pan fyddwch yn creu ateb amlgyfrwng, sut ydych chi'n penderfynu pa offer a thechnegau creadigol digidol i'w defnyddio?

Dysgu digidol

- Sut ydych chi'n penderfynu pa offer digidol i'w defnyddio, a pham?

Atodiad 4

Cwestiynau i'w haddasu yn unol â thrywyddau ymholi

Cyfarfodydd â rheolwyr canol

	<p>Beth yw eich safbwyntiau am safonau medrau dysgwyr yn y maes dysgu/ coleg/darparwr?</p> <p>Sut caiff targedau eu gosod ar gyfer gwella yng nghyflawniad medrau dysgwyr? Sut ydych chi'n monitro'r rhain?</p>
	<p>Sut mae'r maes dysgu yn cynllunio ar gyfer datblygu dilyniant ym medrau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol dysgwyr?</p> <p>Pa mor dda y mae staff yn eich maes dysgu/darparwr yn deall lefel y medrau y gellir ei disgwyl gan ddysgwyr unigol fel bod tasgau'n cael eu gosod ar y lefel gywir?</p>
	<p>Sut mae'r maes dysgu/coleg/darparwr yn sicrhau addysgu medrau o ansawdd da?</p> <p>Beth yw disgwyliadau athrawon o ran asesu, cofnodi ac adrodd am ddatblygiad medrau dysgwyr?</p> <p>Sut ydych chi'n cael hyfforddiant a chymorth perthnasol ar strategaethau dysgu ac addysgu priodol i wella medrau llythrennedd a rhifedd, a medrau llythrennedd digidol?</p>

Cyfarfodydd ag uwch reolwyr

	<p>Sut ydych chi'n atebol am safonau medrau dysgwyr?</p> <p>Sut ydych chi'n gosod a monitro targedau ar gyfer cynnydd dysgwyr mewn medrau?</p> <p>Beth yw safonau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol yn eich maes cyfrifoldeb? Beth oedd y deilliannau llythrennedd a rhifedd y llynedd?</p>
	<p>Beth yw eich rôl mewn cynllunio darpariaeth medrau?</p> <p>Beth sy'n gyrru'r cynllunio ar gyfer medrau?</p>
	<p>Beth yw eich sail dystiolaeth ar gyfer llunio barnau am ansawdd addysgu ac asesu medrau?</p> <p>Sut ydych chi'n monitro ac olrhain addysgu medrau?</p>
	<p>Beth yw cryfderau a gwendidau eich strwythur presennol ar gyfer rheoli medrau?</p> <p>Sut ydych chi'n sicrhau bod y bobl yr ydych yn eu rheoli yn atebol yn briodol am ddatblygu medrau dysgwyr?</p> <p>Sut ydych chi'n cyflawni'r heriau i ddatblygu medrau dysgwyr ar draws coleg aml-safle neu gydag isgcontractwyr mewn dysgu yn y gwaith?</p> <p>Sut ydych chi'n rheoli tanberfformio wrth addysgu medrau? A allwch chi roi enghreifftiau o ble mae hyn wedi bod yn effeithiol?</p>
	<p>Sut ydych chi'n meincnodi datblygu medrau a deilliannau? Y tu mewn a'r tu allan i'r coleg/darparwr?</p> <p>Beth yw'r targedau medrau sefydliadol rydych chi'n gyfrifol amdanynt?</p> <p>Sut ydych chi'n mesur, yn monitro ac yn olrhain cynnydd dysgwyr mewn medrau yn erbyn y targedau hyn?</p>

Cyfarfodydd â phenaethiaid neu brif weithredwyr colegau

	<p>Sut ydych chi'n sicrhau bod safonau dysgu a chyflawniad mewn medrau cystal ag y gallent fod?</p>
	<p>Sut ydych chi wedi datblygu dull y coleg/darparwr o ymdrin â medrau ar draws y cwricwlwm?</p> <p>Pa mor dda y mae'r dull hwn yn gweithio?</p>
	<p>Sut ydych chi'n sicrhau bod addysgu, hyfforddi ac asesu mewn medrau yn gyson ac o ansawdd uchel ar draws yr holl feysydd medrau? Pa systemau adrodd sydd gennych ar gyfer hyn? Pa systemau sydd gennych ar gyfer ysgogi gwelliant?</p>
	<p>Beth yw cryfderau a gwendidau eich cynllunio strategol a gweithredol presennol ar gyfer medrau? Sut ydych chi'n sicrhau bod cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith, a'u datblygu?</p>
	<p>Pam ydych chi wedi dewis y strwythur staffio presennol ar gyfer datblygu medrau dysgwyr?</p> <p>Sut mae'r strwythur presennol yn sicrhau ansawdd cyflwyno medrau a deilliannau?</p> <p>Sut ydych chi'n mesur ansawdd cydlynio medrau ar draws yr holl feysydd dysgu ac ar draws y dosbarthiadau cymwysterau medrau, medrau ar wahân a medrau corfforedig ac mewn cymorth i ddysgwyr?</p> <p>Beth yw ansawdd presennol cyflwyno medrau a deilliannau? Beth yw'r cryfderau, a pha feysydd y mae angen eu datblygu ymhellach?</p>

Cyfarfodydd â llywodraethwyr mewn colegau

	<p>Beth yw eich barn am safonau medrau yn y coleg? Pa feysydd medrau sy'n perfformio'n dda a pha feysydd medrau y mae angen eu gwella?</p> <p>Sut ydych chi'n defnyddio data'r coleg i herio'r coleg i wella datblygiad medrau dysgwyr?</p>
	<p>Sut ydych chi'n cefnogi strategaethau a pholisïau medrau effeithiol ar draws y coleg, yn enwedig ar gyfer llythrennedd a rhifedd a llythrennedd digidol?</p>
	<p>Pa mor dda y caiff medrau eu haddysgu ar draws y coleg?</p>
	<p>Sut ydych chi'n chwarae eich rôl mewn gosod cyfeiriad strategol y coleg, yn enwedig ar gyfer datblygu medrau?</p>
	<p>Beth yw eich rôl yng ngweithdrefnau hunanasesu'r coleg? Pa mor drylwyr ydynt ar gyfer gwaith y coleg o ran datblygu medrau dysgwyr, yn eich barn chi?</p>